# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD MEDI 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 20fed o Fedi, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts, Cae Gors** |
| **CADEIRYDD** | **Arwyn Herald Roberts** |

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd **AHR** pawb i'r cyfarfod.

**Yn bresennol heno roedd:**

Gwilym Williams **(GLW)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Adam Summers **(AS);** Nerys Evans **(NE);** Cyng. Huw Rowlands **(HR)**; Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** Tom Ellis **(TE)** ac Gillian Thomas **(y Clerc).**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**
Nia Gruffydd; **(NG);** Jason Hunt **(JH).** Michelle Williams **(MW);**

**3. DATGAN BUDDIANT**

AMJ 6 (h) Nid yw'n fuddiant sy'n rhagfarnu
Aelod ar Bwyllgor y Ganolfan

**4. CADARNHAU COFNODION MEHEFIN 2023 A MATERION YN CODI**

Cynigwyd cofnodion Gorffennaf 2023 yn gywir gan GVT gydag AS yn eilio.

**MATERION YN CODI**

**a) MEINCIAU GLAN RHYD, RHOS ISAF, SGWÂR RHOS ISAF, SARON**
Adroddodd y clerc bod y tri oedd wedi gado cynnig pris wedi tynnu allan y funud ddiwethaf.
Cynigiodd AMJ i'r aelodau daro sylw iddynt, cytunodd HR ei gymorth.

**b) TE - CAIS AM SAFLE BWS I LANWNDA**
Roedd y Cyngor wedi gofyn am dystiolaeth i'r angen mewn cyfarfod blaenorol.
Adroddodd TE nad yw'r bws yn mynd drwy Lanwnda bellach felly nid oes modd defnyddio'r gysgodfa yn y pentref - y clerc i lythyru a'r Cyngor Sir gyda chais iddynt sicrhau bod y gwasanaeth yn mynd trwy'r pentref.

**c) TE – CWYNION AM GARFFOSIAETH GER Y GOAT LLANWNDA**
Adroddodd HR bod swyddog wedi bod allan i'r darn coed mewn cwestiwn – nid oedd hoel carthion nac arogl i'w glywed, i berwyl hyn mae'n annhebygol bysa gweithred gan y Cyngor Sir yn cymryd lle.
Cynghorodd i unrhyw berson sydd yn gweld pobl yn mynd i'r toiled yn gyhoeddus adrodd y mater i'r Heddlu.
Cadarnhaodd ei fod yn dir preifat.

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | **d) CAU CHWARAE RHOSGADFAN**<br>Rhannodd AMJ bryderon am opsiwn a drafodwyd yng nghyfarfod blaenorol i'r Cyngor Iesu'r cae chwarae<br>• Pont Glan Don - Diffygion gyda chanllaw'r bont - Cyfrifoldeb pwy?<br>• Grantiau – Ond yn agored i Bwyllgorau Gwirfoddol<br>• Y Goedwig - Wedi gôr dyfu, costau<br>• Polion trydan – Incwm<br>• Torri Gwair – Ni fydd toriadau masnachol yn dderbyniol<br>• Cyfarfod Cyhoeddus – Angen ei gynnal ar fyrder<br>NE – Beth fydd yn digwydd os na fydd diddordeb gan y trigolion i ail sefydlu Pwyllgor?<br>Trafodwyd posibilrwydd i aelodau'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Gwirfoddol, ni fydd posib cytuno ar ddim hyd nes bydd cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal. |
| **5.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a) RHIF CAIS/APP REF: C23/0585/24/DT - BRYN BEDDAU, BONTNEWYDD, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7YE**<br>Ymestyn tŷ i adeilad allanol ac addasu gweddill yr adeilad i anecs hunangynhaliol.<br>Dilyn a Darganfod<br><br>**b) RHIF CAIS/APP REF: C23/0617/24/DT - Y GILFACH, RHOS ISAF, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7NN**<br>Addasu Modurdy yn Anecs ar gyfer Un Aelod o'r Teulu.<br>Dilyn a Darganfod<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad i'r ceisiadau |
| **6.** | **MATERION MISOL** |
| | **a) ETHOLIAD WARD RHOSTRYFAN**<br>Adroddodd y clerc bydd y Cyngor Sir yn cynnal Etholiad yng Nghapel Rhostryfan ar Ddydd Iau, 28 Medi 2023<br>Bydd yr Etholiad yn agored i drigolion Rhostryfan yn unig.<br>Adroddodd NE ei siomedigaeth ar broses hysbysebu'r Etholiad<br>Mae'r Etholiad bellach wedi ei hysbysebu ar yr hysbysfwrdd yn Rhostryfan, tudalen FB Rhostryfan a'r Cyngor Cymuned ac ar wefan y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir.<br>Y clerc i sicrhau defnydd rheolaidd o'r hysbysfyrddau.<br><br>**b) PONT BRO WYLED – CAIS GAN UN O DRIGOLION RHOSTRYFAN**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan un o drigolion Rostryfan yn adrodd bod plentyn bychan (tua 3-4 mlwydd oed) wedi cael mynediad at yr afon a methu dod allan. Oni bai ei fod wedi clywed y bachgen yn sgrechian ni fyddai yn ymwybodol ohono a bu rhaid helpu i'w gael allan o'r afon. Y clerc i ofyn i'r Cyngor Sir am sylw brys.<br><br>**c) LLWYBR BRYNGWYN**<br><br>• **DYFYNBRISIAU - ATGYWEIRIO FFENS**<br>I'w drafod Cyfarfod nesaf - Y clerc i ddiweddaru'r ymgeiswyr<br><br>• **DYFODOL LLWYBR BRYN GWYN**<br>Rhannodd y Cyng. Huw Rowlands ganlyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda Dafydd Thomas; Dafydd Roberts a Nia Gruffydd.<br><br>Esboniodd bod angen gwneud penderfyniad am ddyfodol llwybr Bryngwyn.<br><br>Er bod Cyngor Cymuned Llanwnda wedi bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y llwybr, mae Cwmni Rheilffordd Ffestiniog (CRhFF) hefyd wedi bod yn gwario'n sylweddol ar seilwaith y llwybr dros y blynyddoedd, ond ddim am wneud hynny yn y tymor hir. Maent yn ystyried gwaredu cyfrifoldeb o'r llwybr. |

CRhFF sydd berchen y llwybr.

Pe byddai'r CRhFF am waredu cyfrifoldeb, yna byddai'n rhaid iddynt wneud hynny drwy broses gyfreithiol, a'r Abandonment of Railways Act  1850.  Byddai hyn yn cymryd amser.

Aeth ymlaen i adrodd cefndir y llwybr ac opsiynau sef ffordd ymlaen i'r Cygnor Cymuned

Diolchodd yr aelodau iddo am ei adroddiad a'i longyfarch.
Cytunwyd i ddod o hyd i bennau marwaidd cyn cynnal trafodaethau gyda'r trigolion.

**d)** **MYNWENT CEFNFAES**
Adroddodd NE gwynion am y toriadau gwair - y clerc i sicrhau bod y fynwent yn cael ei thorri o leiaf pob 3 wythnos.

- **DYFYNBRISIAU ATGYWEIRIO BWLCH Y WAL GEFN**
  Cytunwyd mewn egwyddor dderbyn dyfynbris i atgyweirio'r bwlch gan Ceri Jones - GVT I gadarnhau bod y defnyddiau'n ddigonol.

- **FFENS GORFFWYSER PLANT**
  Bydd y gwaith yn cael ei gychwyn a'i gwblhau'r wythnos gyntaf fis Hydref - Wedi gorfod disgwyl Gweithgynhyrchwyr

- **FFENS YR ESTYNIAD**
  North Wales Ffencing yn gobeithio paratoi'r Gwaith ar y 5 – 6 Mis Hydref

**e)** **MEINCIAU GLAN RHYD, SGWÂR BACH RHOS ISAF A SGWÂR RHOS ISAF a Saron**
Gweler 4 (a)

**f)** **CAE CHWARAE RHOSTRYFAN – SYLWADAU GWYN WILLIAMS CYNGOR GWYNEDD**
Derbyniwyd sylwadau parthed argymhellion Asesiad Risg a gafwyd ei wneud gan Gyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned ar Gae Chwarae Rhostryfan yn ddiweddar, er  nad oedd y swyddog a ddarparwyd y risg yn datgan bod unrhyw waith yn angenrheidiol roedd Cyngor Gwynedd yn teimlo bod rhan o'r gwaith yn angenrheidiol. Y clerc i drefnu gyda'r darparwyr gosod .

**g)** **CAE CHWARAE RHOSGADFAN – CROGCHWYN**
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb 3 blynedd llynedd - bydd yn ymweld ar safle i roi triniaeth yn y bythefnos nesaf.

**h)** **HYSBYSIAD STATUDOL YSGOL FELINWNDA**
Wedi ystyried a thrafod cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn derbyn bod cyfanswm 8 disgybl yn addysgol amhosib.
Y clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd  pryder yr aelodau am ddiogelwch y neuadd a gofyn iddynt sicrhau cynaladwyedd y ganolfan i'r dyfodol - defnydd rheolaidd

**i)** **HYFFORDDIANT**
Cytunodd yr aelodau ddiweddaru'r clerc gyda'i dymuniadau.

**j)** **GOLYGFA LON WEN**
Nid oedd diweddariad i'w rannu.  I'w drafod yng nghyfarfod Hydref. AMJ argymell cysylltu â Mason ac Owen, Gaer.

**k)** **RHYBUDD - CAU FFORDD DOSBARTH III YN LLANDWROG GER PARC BUSNES LLANDWROG 28AIN O FEDI**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

| | |
|---|---|
| | **l) CCSQ CYFARFOD GRŴP CYSWLLT**<br>Adroddodd y Clerc bydd Grŵp Cyswllt Chwarel Moel Tryfan ac Alexandra yn cynnal cyfarfod ar bnawn **dydd Mercher, 1 Tachwedd**, 2022 yng **Nghanolfan y Fron,** yn dechrau am **3.00yp**.<br><br>Fforwm i drafod pryderon yn ymwneud â gwaith yng Nghwarel Moel Tryfan ac Alexandra, efo'r bwriad o wella dealltwriaeth rhwng pob ochr. Anfonir manylion yr agenda cyn y cyfarfod.<br>Y clerc i yrru blaen Cwestiwn y Cyngor - Oes bwriad sefydlu ychwaneg o loriau |
| **7.** | **ADRODDIADAU** |
| | **a) CYNGHORYDD HUW ROWLANDS**<br>• Diweddariad am Gae Chware Gwêl y Foel, Dinas - Angen sortio draeniau yn gyntaf, disgwyl Beach Developments ymweld â'r safle i wella'r llecyn agored.<br>Cwyn wedi ei wneud am gyflwr y Ffens ar y safle – gwaith ar y gweill.<br>• Bydd marciau ffordd yn cael ei gosod yn fuan yn Saron ac arwyddion cae chwarae<br>• Plant yn Ffrwd Cau yn colli allan am gludiant i Ysgol Syr Hugh Owen am ddim gan eu bod o fewn 3 milltir o'r Ysgol, Llywodraeth Cymru yn asesu, cytundeb iddynt gael cludiant am y tro.<br>• Cais i dorri chwyn o Ffrwd Cae Du am y Rheilffordd wedi ei wneud<br>• Cyfarfod yn cael ei baratoi i drafod trwydded i saethu yn y Foryd<br>• Stad Penrallt Saron – cytundeb wedi ei dderbyn i ail wynebu<br>• Trigolion Saron wedi gofyn am ganiatâd sefydlu bocsys blodau - argymell creu Grŵp Gwirfoddoli<br><br>**b) CYNGHORYDD ARWYN (HERALD) ROBERTS**<br>• Gwaith ar fin cychwyn fis Tachwedd gyda bwriad eu cwblhau fis Mawrth yn Ninas Dinlle - arian wedi ei dderbyn i ail wneud maes Parcio a chaban - Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal yn ystod yr haf gyda Chyngor Gwynedd, Cynghorwyr Lleol ac aelodau'r Cyngor i drafod costau parcio<br>• Bydd arwydd fflachio newydd yn cael ei godi yn fuan ger Fron Wydr, Rhosgadfan bydd yn cael ei gynnal a'i gadw am 2 flynedd gan y Cyngor Sir gyda chyfrifoldeb ar ddiwedd y cyfnod yn disgyn ar y Cyngor Cymuned.<br>• Heddlu – Cwynion wedi ei gwneud am ladrata olew a beics modur ar y mynydd, Recordiad CCTV o Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref wedi ei rannu. Bydd yn cyfarfod wythnos i ddydd Gwener – PPCSO wedi ei phenodi i orchwylio'r pentref ond yn anffodus wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am 4 mis oherwydd salwch.<br>• Clwb Ieuenctid – Bydd yn rhannu diweddariad yng nghyfarfod Hydref gan fod y trefnydd ar ei wyliau.<br>• Tŷ hen - Prosiect Newydd Adra yn Nhai Gwelfor - Paneli solar wedi cychwyn eu gosod. Dwr yn llifo i rif 2 o gae Ysgol, gwaith wedi ei stopio. Dadl rhwng Adra a Chyngor Gwynedd am gyfrifoldeb y dŵr. Trafodaethau pellach i'w cynnal yn y dyfodol agos gyda Chyngor Sir, Adra, Bwr Dwr, Asiantaeth Amgylchedd Natural Resources Wales I drafod rhediad y dŵr. Cytunodd GVT a GW fynychu hefyd |

| 8. | MATERION ARIANNOL |
|---|---|

a) **CYSONIAD**

Cynigwyd y cysoniad yn gywir gan G.W gyda G.T yn eilio

Cytunodd yr aelodau godi cytundeb HP o £2.99 I £4.99 yn fisol ar gyfer gwaith printio

**Taliadau a wnaethpwyd fis Awst sydd wedi gadael y Banc**

**101712** Wynnstay - Meinciau Rhostryfan £1,530.36

**101713** Cyflog a threuliau Clerc £656.50

-

**CYFRIF CADW - 30 o Fai i 28 o Awst 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£63,581.85** |
| Derbyniadau | + | £212.94 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£63,794.79** |

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Fehefin i 28 o Awst 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£12,129.12** |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £6,800.76 |
| Balans Cau | = | **£5,328.36** |

**CYFANSWM Y DDAU GYFRIF** = **£69,123.15**

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.04.23 | TCDLL | **101704** | £100.00 |
| | | = | **£100.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| - | - | - | - |
|---|---|---|---|
| 20.09.23 | Cyflog a Threuliau Clerc | **101714** | £656.50 |
| 20.09.23 | Un Llais Cymru | **101715** | £350.00 |
| 20.09.23 | Cyngor Gwynedd | **101716** | £288.00 |
| 20.09.23 | A. Hughes Jones Dyson | **101717** | £216.00 |
| | | = | **£1,510.50** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** = **£67,512.65**

| 9. | GOHEBIAETH |
|---|---|

a) **CYDLYNYDD PARTNERIAETH NATUR LLEOL - ARIAN CYFALAF ER MWYN GWELLA AMGYLCHEDD GWYNEDD**

b) **GWASANAETH TAN AC ACHUB - DIWEDDARIAD AR EIN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

| | |
|---|---|
| | **c)** **CYNIGION AR GYFER CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU 2023**<br>Nodwyd nid oedd cynnig Cyngor Cymuned Pistyll parthed darparu Hyfforddiant diogonnol yn y Gymraeg gafwyd ei eilio gan Cyngor Llanwnda wedi ei ychwanneu I'r Rhaglen.<br><br>**d)** **HOLIADUR COMISIWN FFINIAU CYMRU**<br><br>**e)** **RHESTR GRANTIAU AR GAEL**<br><br>**f)** **CONCRIT AWYREDIG AWTOCLAFIEDIG CYFNERTH (RAAC)**<br><br>**g)** **DIGWYDDIAD AR Y CYD RHWNG UN LLAIS CYMRU/SLCC – DYDD MERCHER 8 TACHWEDD 2023**<br><br>**h)** **CYNHADLEDD BLYNYDDOL AC CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU AR FAES Y SIOE AMAETHYDDOL AR DDYDD SADWRN 30 MEDI**<br><br>**i)** **PROSIECT PRIFFYRDD DRAENOG**<br><br>**j)** **HOLIADUR CYMUNEDAU CYNGOR GWYNEDD**<br><br>**k)** **ERTHYGL 4**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau I'w gweithredu |
| **10.** | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a)** **GW – MYNWENT CEFNFAES – REILIAU WEDI EU GOSOD O AMGYLCH CARREG FEDD.**<br>Y Cadeirydd I Llythyru gyda'r teulu yn datgelu bod hyn yn groes I bolisiau'r Cyngor ac yn ymharu a pholisi diogelwch a thoriadau gwair.<br><br>**b)** **TE - GIAT FACH LON EIFION YN CAEL EI GADAEL YN AGORED**<br><br>**c)** **TE - PARCIO YN LLANWNDA**<br>Amhosib mynd trwy'r pentref gan fod y trigolion bellach gyda 4-5 o geir, carafannau a burger van<br>HR I drafod gyda'r Adran Priffyrdd. |
| **11.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Hydref 18eg, 2023 – Canolfan Kate Roberts – 7yh |